

Please scroll down for English

Deall Llefydd Cymru

Prosiect newydd y Sefydliad Materion Cymreig ar y cyd â'i bartneriaid yw Deall Llefydd Cymru. Bydd y fenter yn creu gwefan sy'n cyflwyno data hygrych a defnyddiol am lefydd yng Nghymru, mewn fformat sy'n hawdd a chyflym i'w ddefnyddio.

Ein Gweledigaeth

Rydyn ni am i wefan Deall Llefydd Cymru fod yn bwynt cyswllt cyntaf er mwyn cael gwybodaeth am drefi Cymru. Bydd pobl yn gallu defnyddio a dehongli'r data a gyflwynir i nodi cyfleoedd yn eu hardaloedd nhw nawr ac yn y dyfodol. Bydd y wefan yn cefnogi ac yn ysbrydoli cymunedau, llunwyr lle a llunwyr polisi i wneud newidiadau cadarnhaol yn y llefydd maen nhw'n byw ac yn gweithio.

Beth fydd y wefan yn ei wneud?

Ni fydd angen bod yn arbenigwr i ddefnyddio gwefan Deall Llefydd Cymru. Bydd graffeg, mapiau a gwybodaeth am yr hyn sy'n debyg ac yn annhebyg rhwng trefi yn helpu i ddehongli a rhyngweithio â data mewn ffordd newydd a deinamig. Bydd y pwyslais ar drefi a chymunedau lleol yn golygu bod Deall Llefydd Cymru yn wahanol i declynnau data eraill.

Mae'r drafodaeth yn parhau ynghylch pa wybodaeth gaiff ei chynnwys ar y wefan, ond mae'n debygol y bydd yn cynnwys data ynghylch gwaith, cymudo, addysg, manwerthu, tai, yr amgylchedd, diwylliant a ieithoedd. Bydd grwpiau cymunedol hefyd yn gallu cyfrannu deunydd. Bydd cyfres o becynnau ar gael iddynt gynnal archwiliad o'u tref eu hunain, gan eu harwain drwy'r broses o gasglu gwybodaeth ac uwchlwytho eu barn eu hunain i'r wefan.

Pam canolbwyntio ar drefi?

Mae cyfran sylweddol o bobl Cymru yn byw mewn trefi. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae cymunedau trefol yn cael eu hanghofio gan bolisi cyhoeddus. Tra bod cyllid penodol ar gyfer rhanbarthau dinesig ac ar gyfer datblygu cefn gwlad Cymru, does dim byd penodol ar gyfer trefi. Yn ogystal, mae prinder data ynghylch trefi er mwyn bod yn sail ar gyfer datblygu polisi ac fel tystiolaeth o arfer da.

Mae Ymddiriedolaeth Carnegie y Deyrnas Unedig wedi comisiynu'r Sefydliad Materion Cymreig i gydweithio gydag eraill i helpu i fynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth a pholisi yma ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau trefol ffyniannus sydd wedi'u grymuso. Mae prosiect Deall Llefydd Cymru hefyd yn dwyn ysbrydoliaeth gan wefan Deall Llefydd yr Alban a ariannwyd gan ymddiriedolaeth Carnegie (www.usp.scot)

Pwy sy'n rhan o'r gwaith?

Rydyn ni wedi sefydlu grŵp traws-sector o bobl â diddordeb (gan gynnwys arbenigwyr data, cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned, sefydliadau cymunedol, cynrychiolwyr busnes, ymarferwyr trefi ac eraill) i siapio cynnwys a dyluniad Deall Llefydd Cymru, ac fe fyddwn wrth gwrs yn gweithio gyda defnyddwyr targed y wefan er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni eu hanghenion.

Mae cynrychiolaeth gan y sefydliadau canlynol ar grŵp rhanddeiliaid Deall Llefydd Cymru: Prifysgol Aberystwyth; Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau; Ymddiriedolaeth Carnegie y Deyrnas Unedig; Data Cymru; Comisiwn Dylunio Cymru; y Ffederasiwn Busnesau Bach; Cyngor Sir Fynwy; Un Llais Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; ac adrannau adfywio ac ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae cyn brif weithredwr awdurdod lleol, pensaer sy'n gweithio ac ymgynghorydd adfywio hefyd ar y grŵp.

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn cydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth Ymddiriedolaeth Carnegie y Deyrnas Unedig



Understanding Welsh Places

Understanding Welsh Places is a new, collaborative project that the Institute of Welsh Affairs (IWA) is working on with its partners. The initiative will create a website that presents useful, available data about places in Wales in a format that is quick and easy to use.

Our Vision

We want the Understanding Welsh Places website to be the first point of call for information about towns in Wales. People will be able to use and interpret the data presented to identify opportunities in their areas now and in the future. The website will support and inspire communities, place makers and policy makers to make positive changes in the places where they live and work.

What will the website do?

People will not need to be experts to use the Understanding Welsh Places website. Graphics, maps and information about similarities and contrasts between towns will help them to interpret and interact with data in new and dynamic ways. The focus on towns and local communities will make Understanding Welsh Places different to other data tools.

The information that will feature on the website is still under discussion, but is likely to include data about employment, commuting, education, retail, housing, the environment, culture and language. Communities will also be able to contribute material. A set of toolkits for undertaking their own town audit will guide them through the process of gathering information and uploading their own views to the website.

Why are we focusing on towns?

A significant proportion of people in Wales live in towns. Too often, however, town communities are overlooked by public policy. While targeted funding exists for city regions and rural development, there is nothing specific to towns. There is also a lack of data about towns to inform policy development and evidence existing good practice.

The IWA has been commissioned by Carnegie UK Trust to work with others to help address these policy and information gaps and to support the development of vibrant and empowered town communities. The Understanding Welsh Places project is also inspired by the Carnegie-funded Understanding Scottish Places website (www.usp.scot).

Who is involved?

We have set up a cross-sector group of interested people (including data experts, town and community council representatives, community organisations, representatives of businesses, towns practitioners and others) to shape the content and design of Understanding Welsh Places and, of course, we will be working with target users of the website to make sure it meets their needs.

The following organisations are represented on the Understanding Welsh Places stakeholder group: Aberystwyth University; Building Communities Trust; Carnegie UK Trust; Data Cymru; the Design Commission for Wales; the Federation of Small Businesses; Monmouthshire County Council; One Voice Wales, the Wales Centre for Voluntary Action; and the Welsh Government's regeneration and statistics departments. The group also includes a former local authority chief executive, a practising architect and a regeneration consultant.

The Institute of Welsh Affairs gratefully acknowledges funding support from the Carnegie UK Trust

